



## **Crynodeb o'r Polisi er mwyn delio ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Cyflwynodd Adran 12 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 Adran 218A Deddf Tai 1996, sy'n mynnu bod pob landlord cymdeithasol yn cyhoeddi Datganiad Polisi er mwyn delio ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG). Mae'r Datganiad Polisi hwn yn dangos ein dyletswydd fel landlord i gynorthwyo wrth ddarparu amgylcheddau diogel a sefydlog ar gyfer ein preswylwyr. Yn ogystal, mae'n dangos ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag YG trwy gyfrwng dull amlasiantaethol sy'n atal ac sy'n cynnig datrysiadau ar gyfer achosion ac effeithiau YG. O wneud cais, mae modd cael copi o'r Polisi llawn mewn gwahanol ffurfiau gan gynnwys Braille, print mawr ac mewn iaith arall yn ôl y gofyn. [Fe'i cyhoeddir ar wefan Tai Wales & West hefyd.](#)

Mae Tai Wales & West (WWH) yn cydnabod yr effaith negyddol a niweidiol y gall YG ei chael ar fywydau pobl, a bwriadwn gyfleu neges glir na oddefir YG. Mae gan WWH amodau tenantiaeth penodol yn eu lle ar gyfer yr holl breswylwyr mewn perthynas ag YG. Dan amodau eu cytundeb tenantiaeth, mae preswylwyr yn gyfrifol am eu hymddygiad eu hunain ac ymddygiad holl aelodau'r aelwyd, gan gynnwys plant, anifeiliaid anwes, lojars ac ymwelwyr. Esbonnir Amodau Tenantiaeth yn glir ac fe'u trafodir wrth lofnodi tenantiaeth.

Mae WWH yn ymateb i bob adroddiad am YG. Fodd bynnag, mae nifer o bethau y gallwch chi eu gwneud cyn cysylltu â ni. Yn aml iawn, y ffordd orau o ddatrys problem yw bod y bobl dan sylw yn ei datrys ei hunain. Ni fydd pobl wastad yn sylweddoli bod eu hymddygiad yn gwylltio pobl arall. Rydym yn cefnogi'r dull gweithredu hwn ac yn cynnig cyngor ynghylch sut i droi at yr unigolyn sy'n peri'r broblem. Dylid adrodd am unrhyw ymddygiad troseddol i'r heddlu yn gyntaf, yna i WWH.

Gellir adrodd wrth WWH am YG dros y ffôn, wyneb yn wyneb, mewn llythyr, mewn neges e-bost neu trwy gyfrwng cynrychiolydd. Caiff pob adroddiad ei drin mewn ffordd gyfrinachol. Darparir gwasanaeth cyfieithu neu gyfieithu ar y pryd yn ôl y gofyn.

Os hoffech wneud adroddiad am YG, ffoniwch 0800 052 2526. Gellir gweld manylion cyswllt pellach trwy droi at wefan Tai Wales & West Housing:  
<https://www.wwha.co.uk/en/contact/>

Adolygir y polisi hwn yn rheolaidd ac fe'i adolygwyd ddiwethaf ym mis Mawrth 2022.